Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Adroddiad ar y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru)

Mawrth 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddDCC**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDCC@senedd.cymru**
X: **@SeneddDCC**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Adroddiad ar y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru)

Mawrth 2025

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mai 2021.
Ceir ei gylch gwaith yn **www.senedd.cymru/SeneddDCC**

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**Laura Anne Jones AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Adam Price AS**
Plaid Cymru

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod gwaith craffu ar y Bil:



**Mick Antoniw AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ..... 5**

Diben y Bil ..... 6

Cylch gorchwyl y Pwyllgor ..... 7

**2. Cymhwysedd deddfwriaethol ..... 9**

Ein barn ni ..... 10

**3. Sylwadau cyffredinol ..... 12**

Datblygu'r Bil a'r angen amdano ..... 12

Ymgynghoriad ..... 12

Profiad yr Alban ..... 15

Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 ..... 16

Cydbwysedd rhwng y manylion ar wyneb y Bil a phwerau dirprwyedig ..... 17

Darpariaethau cofrestru ychwanegol dangosol a rannwyd â phwyllgorau'r Senedd ..... 19

Ein barn ni ..... 22

**4. Sylwadau penodol ar Rannau ac adrannau penodol o'r Bil ..... 25**

Rhan 2 – Cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr ..... 25

Rhan 3 – Ardoll ymwelwyr ..... 28

Rhan 4 – Darpariaeth amrywiol a chyffredinol ..... 36

Ein barn ni ..... 38

Rhan 1 ..... 38

Rhan 2 ..... 39

Rhan 3 ..... 41

Rhan 4 ..... 44

# 1. Cyflwyniad

## Ar 25 Tachwedd 2024, cyflwynodd y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg (yr Ysgrifennydd Cabinet) y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru)[1] (y Bil), a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef[2].

**1.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddatganiad Ysgrifenedig ar 25 Tachwedd 2024 ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno.[3] Cyhoeddwyd Datganiad o Fwriad y Polisi hefyd ar gyfer is-ddeddfwriaeth i'w gwneud o dan y Bil.[4]

**2.** Ar 5 Tachwedd 2024, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Bil i'r Pwyllgor Cyllid[5] a phennodd 21 Mawrth 2025 fel y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar ei egwyddorin cyffredinol.[6]

**3.** Ar 26 Tachwedd 2024, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Cabinet at y Pwyllgor Cyllid yn amgáu "darpariaethau cofrestru ychwanegol dangosol", yn datgan mai ei fwriad oedd cyflwyno'r darpariaethau hyn fel gwelliannau yng Nghyfnod 2.[7]

**4.** Ar 7 Ionawr 2025, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Cabinet eto at y Pwyllgor Cyllid yn cadarnhau ei fod hefyd yn bwriadu cyflwyno nifer o welliannau eraill yng Nghyfnod 2; nodir y rhain mewn penodau diweddarach.[8]

[1] Y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru), fel y'i cyflwynwyd
[2] Llywodraeth Cymru, Y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru), Memorandwm Esboniadol
[3] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Cyflwyno'r Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru), 25 Tachwedd 2024
[4] Llywodraeth Cymru, Datganiad o Fwriad y Polisi, Tachwedd 2024
[5] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru), Tachwedd 2024
[6] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru), Tachwedd 2024
[7] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at y Pwyllgor Cyllid, 26 Tachwedd 2024
[8] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at y Pwyllgor Cyllid, 7 Ionawr 2025

## Diben y Bil

**5.** Yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan diben y Bil fel a ganlyn:

> *"Treth leol newydd a gaiff ei dylunio mewn ffordd sy'n gweithio i gymunedau lleol, busnesau, ac ymwelwyr â Chymru fydd ardoll ymwelwyr. Mae trethi lleol yn fuddsoddiad yn ein dyfodol i ariannu gwariant lleol; ni fyddai ein hasedau cyhoeddus heddiw – ffyrdd, canolfannau ymwelwyr, traethau glân, parciau, canolfannau hamdden na mannau trefol – yn bodoli heb drethi. Mae trethi lleol yn ffrydiau refeniw pwysig sy'n sicrhau bod gwasanaethau a seilwaith lleol yn parhau'n gynaliadwy i'n cymunedau.*
>
> *Defnyddir y term 'ardoll' gan ei fod yn ymwneud â thaliad uniongyrchol i'r llywodraeth nad yw'n gysylltiedig â gwerth nwyddau a gwasanaethau. Mae'r ardoll yn dreth leol a fydd yn ariannu gwariant llywodraeth leol.*
>
> *Bydd Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) ("y Bil") yn rhoi pŵer i awdurdodau lleol yng Nghymru i godi ardoll ar ymwelwyr dros nos sy'n aros mewn llety ymwelwyr yn eu hardal. Bydd yr ardoll yn ddisgresiynol ei natur, gan mai mater i awdurdodau lleol fydd penderfynu a ddylid ei chyflwyno, ar ôl ymgynghori â'u cymunedau a busnesau lleol. Bydd yn dâl fesul person, fesul noson, a fydd yn cael ei godi ar bawb sy'n talu i aros mewn llety dros nos. Bydd cap o 31 o ddiwrnodau ar nifer y nosweithiau y gellir codi amdanynt a bydd rhai arosiadau dros nos wedi'u heithrio, yn rhai lle nad yw'r ardoll yn daladwy neu'n destun ad-daliad. Bydd yr ardoll yn cael ei chasglu a'i rheoli gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC).*
>
> *Mae'r Bil hefyd yn sefydlu cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr (darparwyr) sy'n gweithredu yng Nghymru, a fydd yn cynnwys manylion am y math o safle y maent yn ei weithredu a'i leoliad ledled Cymru. Mae'n ofynnol i ddarparwyr gofrestru, ni waeth a yw'r ardal awdurdod lleol y maent yn gweithredu ynddi wedi gweithredu'r ardoll ai peidio."*[9]

[9] Memorandwm Esboniadol, tudalen 3

**6.** Mae enw hir y Bil yn datgan mai dyma ddiben y Bil:

> *"… sefydlu cofrestr o bersonau sy'n darparu llety ymwelwyr mewn mangre yng Nghymru; i roi'r pŵer i brif gynghorau i gyflwyno ardoll ar arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr yn eu hardaloedd; i wneud diwygiadau amrywiol i Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016; ac at ddibenion cysylltiedig."*[10]

**7.** Wrth gyflwyno'r Bil i'r Senedd, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

> *"Mae'r Bil yn rhoi pŵer caniataol i awdurdodau lleol benderfynu a ydyn nhw'n dewis cyflwyno ardoll ymwelwyr yn eu hardaloedd lleol ai peidio, yn seiliedig ar eu hamgylchiadau lleol. Mae gwneud hynny'n cyflawni'r ymrwymiad ym maniffesto Llafur Cymru, a gaiff ei ailadrodd yn y rhaglen lywodraethu a'r cytundeb cydweithio. Fe gaiff y pŵer ei dynnu i lawr gan y cynghorau sy'n cymryd rhan pan fôn nhw'n awyddus i fod â'r gallu i godi ardoll resymol ar ymwelwyr sy'n aros dros nos mewn llety i ymwelwyr. Cafodd yr ardoll ei gwreiddio yn yr egwyddor o chwarae teg. Mewn awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan, fe fydd y costau wrth gynnal y seilwaith cyhoeddus a'r gwasanaethau sy'n gwneud Cymru yn gyrchfan ddeniadol yn cael eu rhannu gan bawb sy'n eu defnyddio nhw ac sy'n elwa arnyn nhw. Fe fydd y rhan helaethaf o'r costau hyn yn dal i gael eu talu gan drigolion lleol, ond fe fydd ymwelwyr hefyd yn gwneud cyfraniad bach ond teg nawr at ddatblygiad a chadwraeth y nodweddion a wnaeth eu denu nhw i fod yn ymwelwyr â'r ardaloedd hynny yn y lle cyntaf. Wrth wneud hynny, fe fydd yna ymdrech ar y cyd i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y sector twristiaeth a'i bwysigrwydd i economi Cymru."*[11]

## Cylch gorchwyl y Pwyllgor

**8.** Cylch gorchwyl y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 21 a 26C. Caiff y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud â deddfwriaeth, datganoli, y cyfansoddiad, cyfiawnder, a materion allanol sydd o fewn cymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â

[10] Y Bil fel y'i cyflwynwyd, tudalen 1
[11] Y Cyfarfod Llawn, 26 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [126]

chymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

**9.** Wrth graffu ar Filiau a gyflwynir i'r Senedd, byddwn yn ystyried:

- materion sy'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd, gan gynnwys cydnawsedd â'r hawliau dynol a warchodir gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol;
- y cydbwysedd rhwng y wybodaeth sydd wedi ei chynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn a fydd yn ymddangos mewn is-ddeddfwriaeth;
- a yw gweithdrefn ddeddfwriaethol briodol wedi cael ei dewis mewn perthynas â rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth;
- unrhyw fater arall rydym yn ystyried ei fod yn berthnasol i ansawdd deddfwriaeth.

**10.** Clywsom dystiolaeth lafar gan yr Ysgrifennydd Cabinet ar 20 Ionawr 2025.[12] Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, gwnaethom ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cabinet gyda chwestiynau nas cyrhaeddwyd yn ystod y sesiwn.[13] Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet i'n cwestiynau ar 5 Chwefror 2025.[14]

**11.** Cawsom dystiolaeth hefyd gan British Marine Wales[15] a Chynghrair Twristiaeth Cymru[16].

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet ymateb i'r casgliadau a'r argymhellion a wnawn yn yr adroddiad hwn o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn y ddadl ar egwyddorion cyffredinol Cyfnod 1.

[12] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025
[13] Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 23 Ionawr 2025
[14] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 5 Chwefror 2025
[15] Tystiolaeth ysgrifenedig gan British Marine Wales
[16] Tystiolaeth ysgrifenedig gan Gynghrair Twristiaeth Cymru

# 2. Cymhwysedd deddfwriaethol

## Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon y byddai'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**12.** Buom yn ystyried y Bil o dan y model cadw pwerau cymhwysedd deddfwriaethol, fel y'i nodir yn adran 108A o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006).

**13.** Yn ei datganiad ar gymhwysedd deddfwriaethol, datganodd y Llywydd y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol.[17]

**14.** Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan y canlynol yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Yn fy marn i, byddai darpariaethau Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru), a gyflwynir gennyf i ar 25 Tachwedd 2024, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru."*[18]

**15.** Pan roddodd yr Ysgrifennydd Cabinet dystiolaeth i ni ar 20 Ionawr 2025, cadarnhaodd ei fod yn fodlon bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.[19]

**16.** Mewn ymateb wrth gael ei holi sut roedd y Llywodraeth wedi ystyried hawliau dynol wrth lunio'r Bil, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

> *"Well, again, it's one of the first and most basic considerations that a Minister has to be satisfied on—that the Bill, where it does engage human rights and the European Convention on Human Rights, then that it does so in a way that is proportionate and doesn't cause the Bill to have any infractions of those obligations. The equality impact assessment that accompanies the Bill does deal with that issue. All the advice that I have—and, again, the Presiding Officer raised no issues in relation to compatibility with the human rights convention—is that the Bill is compliant."*[20]

[17] Datganiad y Llywydd ar Gymhwysedd Deddfwriaethol: Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru), 25 Tachwedd 2024
[18] Memorandwm Esboniadol, tudalen 1
[19] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [5]
[20] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [7]

**17.** Yn ein llythyr at yr Ysgrifennydd Cabinet ar 23 Ionawr 2025, gofynnwyd a oedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod unrhyw un o ddarpariaethau'r Bil yn gofyn cydsyniad EF y Brenin neu Dywysog Cymru.[21] Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Mae swyddogion o'r farn, o ystyried buddiannau eiddo Dugiaeth Cernyw yng Nghymru (sy'n dychwelyd i'r Goron pan nad oes Dug Cernyw) y bydd angen cydsyniad Dug Cernyw a'r Brenin mewn perthynas â'r holl ddarpariaethau yn y Bil sy'n ymdrin â chofrestru llety ymwelwyr a chreu ardoll ar gyfer arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr.*
>
> *Yn gyffredinol, ceisir caniatâd ar ôl cwblhau cyfnod 2 a rhaid cael y caniatâd hwn a rhoi hysbysiad ffurfiol i'r Senedd cyn dechrau cyfnod 4."*[22]

## Ein barn ni

**18.** Nodwn y dystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet mewn perthynas â materion cymhwysedd deddfwriaethol.

**19.** Ymhellach, nodwn fod yr Ysgrifennydd Cabinet o'r farn y bydd angen cydsyniad Dug Cernyw ac Ei Fawrhydi y Brenin mewn perthynas â'r holl ddarpariaethau yn y Bil sy'n ymdrin â chofrestru llety ymwelwyr a chreu ardoll ar arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr. Rydym yn cydnabod mai cyfrifoldeb yr Ysgrifennydd Cabinet yw ceisio a chael y cydsyniad hwn cyn cychwyn trafodion Cyfnod 4 yn y Senedd.

**20.** Fel rhan o'n gwaith craffu ar y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), gwnaethom ofyn i Lywodraeth Cymru am ei harfer ar gyfer ceisio cydsyniad o'r fath ac a fydd trafodaethau rhagarweiniol â swyddfa Ei Fawrhydi y Brenin. Mewn ymateb, dywedwyd wrthym fod proses ar waith ar gyfer gohebu â'r Aelwyd Frenhinol.[23] Rydym yn cydnabod ei bod yn bosibl na fydd yn addas i rai manylion am y berthynas waith hon gael eu datgelu'n gyhoeddus. Serch hynny, os yw ceisio cydsyniad Dug Cernyw neu Ei Fawrhydi y Brenin ar gyfer darpariaethau mewn Bil penodol yn arwain at gyflwyno gwelliannau i'r Bil gan Lywodraeth Cymru, credwn fod tryloywder ynghylch y trafodaethau hyn yn bwysig ac yn angenrheidiol.

---

[21] Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 23 Ionawr 2025, cwestiwn 9
[22] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 5 Chwefror 2025, ymateb i gwestiwn 9
[23] Llythyr oddi wrth Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol fel yr oedd ar y pryd, 18 Ionawr 2024

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Prif Weinidog ystyried rhoi gwybodaeth ac eglurder i'r Senedd ynghylch y broses y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cydsyniad Dug Cernyw ac Ei Fawrhydi y Brenin ar gyfer darpariaethau mewn Biliau a gyflwynir i'r Senedd pan ystyrir y byddai'r darpariaethau hynny'n effeithio ar fuddiannau uchelfreiniol, preifat neu refeniw etifeddol Dug Cernyw neu EF y Brenin.

**21.** Nodwn fod Pennod 9 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi manylion cyfres o asesiadau effaith sydd wedi'u cwblhau ar y Bil gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'i Hasesiad Effaith Integredig.

# 3. Sylwadau cyffredinol

## Datblygu'r Bil a'r angen amdano

**22.** Yn ei Rhaglen Lywodraethu (2021 i 2026), ymrwymodd Llywodraeth Cymru i *'[g]yflwyno deddfwriaeth sy'n caniatáu i awdurdodau lleol godi ardoll twristiaeth'*.[24]

### Ymgynghoriad

**23.** Ym mis Medi 2022, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion i ddarparu pwerau dewisol i awdurdodau lleol gymhwyso ardoll ymwelwyr yn eu hardaloedd.[25] Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn gofyn am farn am gynllun trwyddedu neu gofrestru statudol mewn cysylltiad â hysbysebu a gosod llety ymwelwyr i gefnogi gweithrediad ardoll ymwelwyr. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Mawrth 2023.[26]

**24.** Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru hefyd ar gynigion ar gyfer cynllun cofrestru a thrwyddedu statudol ar gyfer llety ymwelwyr yng Nghymru rhwng mis Rhagfyr 2022 a mis Mawrth 2023[27], ac mae wedi cadarnhau ei bod yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth ar gyfer cynllun trwyddedu yn ystod tymor y Senedd hon[28].

**25.** Yn ein sesiwn dystiolaeth gyda'r Ysgrifennydd Cabinet ar 20 Ionawr 2025, nodwyd bod y Bil, o ran rhai pethau, yn un galluogi, a gofynnwyd pam y mae ei angen nawr. Cytunodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei fod yn Fil galluogi gyda phŵer caniataol, gan nodi mai awdurdodau lleol fydd yn penderfynu a ddylid manteisio ar y pŵer caniataol ai peidio[29]. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol hefyd:

> *"I think it's worth me just briefly reminding the committee of the history of the Bill. So, the first time a visitor levy was proposed and discussed in Wales goes back as far as the Holtham commission report in 2009, where Gerry Holtham included it*

[24] Llywodraeth Cymru, Y Rhaglen Lywodraethu - Diweddariad, Rhagfyr 2021
[25] Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer Ardoll Ymwelwyr dewisol i awdurdodau lleol
[26] Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion: Cynigion ar gyfer ardoll ymwelwyr dewisol i awdurdodau lleol
[27] Llywodraeth Cymru, Cynllun trwyddedu statudol i ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru
[28] Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r wasg - Datgelu cynlluniau ar gyfer cofrestru statudol a chynllun trwyddedu ar gyfer llety ymwelwyr yng Nghymru, 9 Ionawr 2024. Gweler hefyd Y Pwyllgor Cyllid, 12 Chwefror 2025, Cofnod y Trafodion [112]
[29] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [10]

> *as an example of how a future Senedd might move to revenue raising. When the previous Conservative Government passed the Government of Wales Act 2017, it included a new power for the Senedd to draw down new forms of taxation in Wales, and the debate about that power included many suggestions from Welsh citizens that a visitor levy could be one of the things that the Government could do. (…)*
>
> *As a result, a commitment to introduce a visitor levy was included in the manifesto of my party going into the 2021 elections. It was confirmed as a commitment in the co-operation agreement with Plaid Cymru. The Government confirmed our intention in a statement to the Senedd in February 2022. There was a consultation exercise between September and December 2022, and the results published in March of last year, and, alongside it, a series of research reports were commissioned and published by Bangor University, by Cardiff University and by Alma Economics. In many ways, Chair, I think the question that might be asked of the Government is not, 'Why now?' but, 'Why so long?' Why has it taken this long to bring this Bill in front of the Senedd? And that is because of the length of consultation and the attempt to work alongside the sector. It's here now because we're in the final stages of this Senedd term and the Government is keen to fulfil its commitment."*[30]

**26.** Gwnaethom nodi'r ymgyngoriadau ar gynigion ar gyfer ardoll ymwelwyr a chynllun cofrestru a gynhaliwyd yn 2022, a gofyn pa newidiadau, os o gwbl, roedd yr Ysgrifennydd Cabinet wedi'u gwneud i'r Bil ers i'r prosesau ddod i ben. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym fod yr ymgynghoriad yn benderfynol mewn nifer o ffyrdd ac y cafwyd neges glir, pe bai ardoll ymwelwyr yng Nghymru yn mynd rhagddi, y byddai angen iddi fod mor syml a chlir â phosibl.[31] Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"There were concerns raised in consultation about offering too many powers for individual local authorities to shape the levy in the way they would want to, and the preference in consultation was for a national scheme capable of being applied locally. We took that very seriously. In the Bill there's only one power that*

[30] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [11]
[31] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [14]

*local authorities have to depart from a national scheme that otherwise applies everywhere, in every part of Wales that decides to adopt it."*[32]

**27.** At hynny, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym y mynegwyd rhai pryderon yn yr ymgynghoriad bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno treth ymddygiadol.[33] Ychwanegodd y canlynol:

*"I think we've tried to respond to that in the way the Bill is framed to make it clear this is not a behavioural tax, it is a revenue-raising tax in a modest way, designed to support the industry and local authorities in covering costs related to tourism and being able to invest in creating the conditions of future success."*[34]

**28.** Ysgrifennodd Cynghrair Twristiaeth Cymru atom yn mynegi pryderon bod meysydd pwysig yn y Bil nad ydyn yw'n credu eu bod wedi'u hystyried yn ddigonol. Dywedodd Cynghrair Twristiaeth Cymru y canlynol wrthym:

*"… there are areas of importance where the consequences, let alone practical requirements, have not been sufficiently considered before publication of the Bill."*[35]

**29.** Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

*"How do I put this in the most diplomatic way? Sometimes, Government can find ourselves in the crossfires of two sorts of criticism. There is the sort of criticism that Mick just reflected: the Bill isn't sufficiently definite, it doesn't nail down every detail. But the alternative criticism that is made is that Government doesn't listen enough to the sector, that the Government has made its mind up already. We have done our very best to make sure that we continue to work alongside those voices in the industry, and there have been many of them, who have been willing to help us to shape that legislation.*

*Sometimes, things are not nailed down in every particular, because you want to make sure that the industry has a continuing opportunity to help us to make sure that the Bill is*

[32] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [14]
[33] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [15]
[34] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [15]
[35] Tystiolaeth ysgrifenedig gan Gynghrair Twristiaeth Cymru

*as workable as possible, as simple and effective as possible. Sometimes, you need to wait to have those conversations, and to use the powers when they're mature. That's what I think we are trying to do here. So, I don't think it is a fair criticism, and I think if we'd done it the opposite way, you might have had a different criticism from the alliance that we'd gone ahead and legislated without taking into account their views."*[36]

**30.** Gwnaethom fynd ar drywydd materion yn ymwneud ag ymgynghori â'r cyhoedd a gofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet pam nad ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar fersiwn ddrafft o'r Bil. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad oedd o'r farn bod achos cryf dros Fil drafft, o ystyried bod y mater hwn wedi bod dan ystyriaeth yn y Senedd ers dros ddegawd. Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

*"There was nothing in the Bill that was likely to come as a surprise to the sector, given the nature of the consultation and the engagement that we'd had with it. So, I didn't feel that the case for a draft Bill was made in this case."*[37]

### Profiad yr Alban

**31.** At hynny, gofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cabinet a oedd y profiadau yn yr Alban a *Deddf Ardoll Ymwelwyr (Yr Alban) 2024* wedi llywio'r Bil a dull polisi cyffredinol Llywodraeth Cymru. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

*"Certainly the Bill has been informed by the Scottish experience, and Welsh Government officials were able to meet with their counterparts in Scotland on a monthly basis during the passage of the Visitor Levy (Scotland) Act. (…)*

*I think you can see both similarities and differences between our approach and the approach in Scotland as a result of that engagement.*

*In terms of similarities, for example, it's a permissive power in Scotland as it is in Wales. It's just for those local authorities that want to take it up. There are consultation obligations for those local authorities to fulfil before they introduce a local tourism levy. And in Scotland, the Bill makes it clear that funds that are raised through the levy must be reinvested in local facilities and*

[36] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [61] a [62]
[37] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [18]

*services used by visitors. That's the form of words used in the Scottish legislation, and that's paralleled in our obligation on local authorities to reinvest the money in destination management and the tourism experience."*[38]

**32.** Tynnodd yr Ysgrifennydd Cabinet sylw hefyd at y gwahaniaethau rhwng y Bil a Deddf Ardoll Ymwelwyr yr Alban. Dywedodd y canlynol:

*"So, in Wales, the consultation, as I say, wanted there to be a national scheme, albeit locally delivered. In Scotland, there is simply a local scheme. It's for local authorities to administer, there's no central collection as there will be through the Welsh Revenue Authority in Wales. We set the rates on the face of the Bill. There are no rates in Scotland; it's for each local authority to determine its own rate, and it's not expressed in Scotland as a sum of money—it's expressed as a percentage of the bill that somebody would otherwise be paying.*

*And it has quite a complex set of possibilities. In Wales, a whole local authority has to opt in. In Scotland, you can opt in and then only parts of a local authority area will be covered by the levy. You can have different rates for different parts of the year. You can have different rates for different parts of a local authority. You can choose different rates for things like the Edinburgh festival if there's a particular event on. And all of this inevitably makes the levy more complex in Scotland, and would cut against the advice that we received in consultation."*[39]

### Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020

**33.** Yn ei hadroddiad blynyddol diweddaraf, nododd Swyddfa'r Farchnad Fewnol fod mesurau twristiaeth (gan gynnwys ardollau ymwelwyr a thrwyddedu llety gosod tymor byr) yn faes datblygu rheoleiddio sy'n effeithio ar farchnad fewnol y DU, neu a allai effeithio arni.[40] Yn ein llythyr at yr Ysgrifennydd Cabinet ar 23 Ionawr 2025, gwnaethom ofyn a oedd wedi cael trafodaethau â Swyddfa'r

[38] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [21] a [22]
[39] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [23] a [24]
[40] Swyddfa'r Farchnad Fewnol, Adroddiad blynyddol ar weithrediad marchnad fewnol y DU 2023 i 2024, Mawrth 2024 [Saesneg yn unig]

Farchnad Fewnol ar y mater hwn neu, os nad oedd wedi, beth yw ei farn am sylwadau Swyddfa'r Farchnad Fewnol. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Nid ydym wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Swyddfa'r Farchnad Fewnol am yr ardoll ymwelwyr yn benodol. Rydym yn cynnig pŵer treth dewisol lleol i brif gynghorau ei ddefnyddio neu beidio ei ddefnyddio. Mae trethi lleol yn fater datganoledig lle gallwn ddeddfu."*[41]

**34.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd nad oedd pryderon wedi'u tynnu at ei sylw y gallai gweithrediad *Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020* (Deddf Marchnad Fewnol y DU) effeithio ar ddarpariaethau yn y Bil.[42]

## Cydbwysedd rhwng y manylion ar wyneb y Bil a phwerau dirprwyedig

**35.** Credwn fod y Bil yn cynnwys 22 o bwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau, gorchmynion a chanllawiau. Ceir crynodeb o'r pwerau hyn yn nhablau 5.1 a 5.2 o'r Memorandwm Esboniadol.

**36.** Fel y nodwyd ym Mhennod 1 o'n hadroddiad, mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi cyhoeddi Datganiad o Fwriad y Polisi sy'n amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru, ar hyn o bryd, yn bwriadu defnyddio'r pwerau dirprwyedig yn y Bil.

**37.** Ein dealltwriaeth ni yw y cynigir 14 o bwerau penodol yn y Bil y caiff Gweinidogion Cymru eu defnyddio i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol (pwerau "Harri'r Wythfed"), fel a ganlyn:

- mae adran 2(5) yn caniatáu diwygio adran 2 i amrywio ystyr "llety ymwelwyr" at ddibenion y Bil;
- mae adran 4(5) yn caniatáu diwygio adran 4(2) i ddiwygio'r wybodaeth orfodol sydd i'w chynnwys yn y gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr sy'n gweithredu yng Nghymru y mae Gweinidogion Cymru yn gorfod ei chynnal o dan adran 4(1);
- mae adran 5(2) yn caniatáu esemptio darparwyr llety ymwelwyr penodol rhag y gofyniad i gofrestru o dan adran 5(1), ac mae is-adran 3(b) yn pennu y caiff rheoliadau esemptio o'r fath ddiwygio darpariaethau'r Bil;

[41] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 5 Chwefror 2025, ymateb i gwestiwn 10
[42] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 5 Chwefror 2025, ymateb i gwestiwn 11

- mae adran 9(5) yn caniatáu diwygio adran 9 i amrywio'r amgylchiadau pryd y bernir bod arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr yn digwydd at ddibenion yr ardoll ymwelwyr;
- mae adran 12(2) yn caniatáu amrywio cyfraddau'r ardoll ymwelwyr a bennir yn adran 12(1);
- mae adran 13(4) yn caniatáu diwygio pa arosiadau dros nos sy'n ddarostyngedig i gyfraddau is neu uwch yr ardoll neu gyfradd o ddim ardoll fel y'i nodir yn is-adrannau (1) i (3);
- mae adran 15(6) yn caniatáu amrywio amgylchiadau pan fo gan berson hawl i ofyn am ad-daliad o'r symiau a dalwyd sy'n cyfateb i'r ardoll (gan gynnwys y rhestr yn adran 15 o fudd-daliadau anabledd cymwys);
- mae adran 17(3)(a) yn caniatáu amrywio'r trothwy yn adran 17 pan fo'n ofynnol i ddarparwr llety ymwelwyr ddychwelyd ffurflenni chwarterol i ACC mewn cysylltiad â'r ardoll (yn lle ffurflenni blynyddol);
- mae adran 24(4) yn caniatáu amrywio adran 24 mewn cysylltiad â rhwymedigaethau adrodd prif gyngor mewn perthynas â'r ardoll;
- mae adran 31 yn caniatáu diwygio unrhyw ddarpariaeth a wneir drwy ddeddfiad sy'n ymwneud â'r ardoll ynglŷn ag achosion pan fo personau yn cynnal busnes mewn partneriaeth neu fel corff anghorfforedig;
- mae adran 33(1) yn caniatáu diwygio unrhyw ddarpariaeth a wneir drwy ddeddfiad sy'n ymwneud â'r ardoll ynglŷn ag achosion sy'n ymwneud â marwolaeth, analluedd ac ansolfedd;
- mae adran 34(1) yn caniatáu diwygio unrhyw ddarpariaeth a wneir drwy ddeddfiad mewn cysylltiad â'i gymhwysiad i'r ardoll dan yr amgylchiadau pan drosglwyddir busnes fel busnes gweithredol;
- mae adran 40 yn caniatáu i Weinidogion Cymru "estyn" darpariaethau'r Bil sy'n ymwneud â chofrestru a'r ardoll "mewn cysylltiad â docfeydd ac angorfeydd a ddarperir ar gyfer llestrau"; a
- mae adran 41(1) yn caniatáu gwneud darpariaeth ddeilliadol, atodol, ganlyniadol, drosiannol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad â darpariaethau'r Bil, gan gynnwys y gallu i ddiwygio unrhyw ddeddfiad.

**38.** Bydd y rhan fwyaf o'r pwerau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu gadarnhaol ddrafft os cânt eu defnyddio. Fodd bynnag, fel y'i drafftiwyd ar hyn o

bryd, bydd y Bil yn galluogi pwerau Harri'r Wythfed yn adrannau 17(3)(a) a 24(4) i fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

**39.** Yn ogystal, mae adran 42(2)(b) yn darparu bod unrhyw bŵer gwneud rheoliadau yn y Bil yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth ddeilliadol, atodol, ganlyniadol, drosiannol neu ddarpariaeth arbed (sy'n cynnwys y gallu i ddiwygio unrhyw ddeddfiad).

**40.** O ystyried ehangder y pwerau sylweddol sy'n cael eu dirprwyo i Weinidogion Cymru yn y Bil, gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet gadarnhau pa ystyriaeth a roddwyd i'r cydbwysedd pŵer hwnnw ac a oedd rhesymau eithriadol dros gael cynifer o bwerau dirprwyedig yn y Bil. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"I think there's a great deal of information on the face of this Bill—the register, the parameters of the Bill, the amount of money that can be charged and so on. All of that is on the face of the Bill. The secondary legislative powers, almost all of which are subject themselves to further Senedd scrutiny, are mostly in the area of futureproofing the Bill. They're there to make sure that, as we develop this policy, and that policy meets the dynamic nature of the industry, we don't have to revert to primary legislation every time we need to respond to that sort of development. So, the essential reason why there are ministerial regulation-making powers is to make sure that the Bill continues to be effective into the future while providing the Senedd itself, the legislature, with the ability to scrutinise and vote upon the use of those powers."*[43]

## Darpariaethau cofrestru ychwanegol dangosol a rannwyd â phwyllgorau'r Senedd

**41.** Fel y nodwyd uchod ym Mhennod 1, yn dilyn cyflwyno'r Bil ar 25 Tachwedd, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Cabinet at y Pwyllgor Cyllid ar 26 Tachwedd 2024 yn amgáu "darpariaethau cofrestru ychwanegol dangosol", yn datgan mai ei fwriad oedd cyflwyno'r darpariaethau hyn fel gwelliannau yng Nghyfnod 2. Yn y llythyr mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan ymhellach y darperir y darpariaethau hyn, ynghyd â'r Datganiad o Fwriad y Polisi, "i helpu â gwaith y Pwyllgor o graffu ar y Bil"[44].

[43] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [57]
[44] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at y Pwyllgor Cyllid, 26 Tachwedd 2024

**42.** Cyfeiriodd y darpariaethau at sefydlu system o gosbau ariannol i ddarparwyr llety ymwelwyr nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofyniad i gofrestru yn adran 5(1) o'r Bil neu nad ydynt yn darparu gwybodaeth i gywiro anghywirdeb yn y gofrestr. Byddai'r darpariaethau drafft yn darparu ar gyfer cyfrifo'r cosbau hynny, eu hasesu, eu talu, apeliadau a phwerau gwneud rheoliadau arfaethedig pellach i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth mewn perthynas â symiau'r cosbau neu'r weithdrefn ar gyfer eu hasesu.

**43.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor Cyllid[45] nad oedd wedi bod yn bosibl cynnwys y darpariaethau ychwanegol hynny pan gyflwynwyd y Bil, felly bu rhaid ei wneud ar ôl y ffaith.

**44.** Gofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cabinet pam na chafodd cyflwyno'r Bil ei ohirio felly nes y gellid ymgorffori darpariaethau o'r fath yn llawn yn y Bil a gyflwynwyd i'r Senedd.

**45.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym fod rhesymau pam na wnaeth Llywodraeth Cymru hynny. Dywedodd fod y Bil yn gysylltiedig â Bil arall a fydd yn creu system drwyddedu, a'i bod yn bwysig iddo i'r ail Fil gael ei ddiogelu. Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet, yn ei farn ef, mai'r ffordd orau o wneud hynny oedd symud y pwerau i greu'r gofrestr i'r Bil hwn. Dywedodd wrthym nad oedd yn bosibl i Lywodraeth Cymru gwblhau'r holl waith cyn iddi anfon y Bil at y Llywydd, ond nad oedd am weld mwy o oedi oherwydd y byddai hynny'n creu problemau i'r Llywodraeth wrth geisio cael y ddau Fil trwodd yn y cyfnod sy'n weddill yn y Chweched Senedd hon.[46]

**46.** O ran darpariaethau'r Bil drafft a rannwyd â'r Pwyllgor Cyllid y diwrnod ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei broses feddwl, gan ddatgan ei fod o'r farn ei bod yn well i'r Pwyllgor Cyllid weld yr hyn roedd Llywodraeth Cymru wedi'i lunio ac i'r Llywodraeth fod yn glir ynghylch ei bwriadau.[47]

**47.** Unwaith eto o ran darpariaethau'r Bil drafft, gofynnwyd a ydynt wedi bod drwy'r un broses asesu ag y byddent wedi mynd drwyddi pe baent wedi cael eu cyflwyno fel rhan o'r Bil gwreiddiol. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi mynd drwy'r broses honno'n llawn, ond na chafodd y gwaith ei adlewyrchu yn y Memorandwm Esboniadol a osodwyd gyda'r Bil pan gafodd ei gyflwyno. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet, pe bai'r darpariaethau'n cael eu derbyn pe byddent yn cael eu cyflwyno yn ystod trafodion

[45] Y Pwyllgor Cyllid, 5 Rhagfyr 2024, Cofnod y Trafodion [143]
[46] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [32]
[47] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [33]

Cyfnod 2, y byddai'r Memorandwm Esboniadol yn cael ei ddiwygio a'i osod gerbron y Senedd.[48]

**48.** Gwnaethom nodi, yn narpariaethau hyn y Bil drafft, fod pŵer Harri'r Wythfed arfaethedig newydd i wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer symiau'r cosbau ariannol a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â hwy. Byddai'r pŵer hefyd yn caniatáu gwneud darpariaeth "wahanol" mewn cysylltiad â symiau'r cosbau a'u hasesu. Gofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cabinet ddweud wrthym pa weithdrefn graffu y mae'n mynd i'w hargymell ar gyfer y pwerau newydd hyn. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.[49]

**49.** Unwaith eto, fel y nodwyd yn gynharach yn ein hadroddiad, mae'r Ysgrifennydd Cabinet hefyd wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Cyllid yn amlinellu gwelliannau pellach mewn perthynas â rhannu data y mae'n bwriadu gweithio arnynt cyn Cyfnod 2, a oedd yn cynnwys cyfeiriad at bŵer gwneud rheoliadau pellach mewn perthynas â datgeliadau o'r gofrestr. Gofynnwyd pam y mae angen y pwerau ychwanegol hyn, a gofynnwyd hefyd am gadarnhad pa un o weithdrefnau craffu'r Senedd a fyddai'n gymwys. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet y bydd y pwerau yn y Bil yn galluogi data i gael eu rhannu pan fo hynny'n ddefnyddiol.[50] Datganodd y canlynol:

> *"I think the most obvious example is in the relationship between the register and the licensing scheme. Accommodation providers will register now as part of this Bill. You would not want businesses who have gone to the trouble of doing all of that to have to provide exactly the same information for the licensing Bill. So, this will allow the data that is collected for the purpose of this Bill, in those circumstances, to be shared for the other purpose, to avoid businesses having to simply duplicate the information they have provided already."*[51]

**50.** Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet eto mai'r bwriad yw i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft fod yn gymwys i'r pwerau yn narpariaethau hyn y Bil arfaethedig.[52]

[48] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [35]
[49] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [39]
[50] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [41]
[51] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [42]
[52] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [43]

## Ein barn ni

**51.** Nodwn dystiolaeth yr Ysgrifennydd Cabinet ynghylch datblygiad y Bil. Nodwn hefyd fod datblygiad y Bil wedi cael ei lywio gan brofiad yr Alban, a bod dull gwahanol o ran yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn *Neddf Ardoll Ymwelwyr (Yr Alban) 2024* yn cael ei fabwysiadu yn y Bil.

**52.** Rydym yn cydnabod y cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgyngoriadau cyhoeddus ar ei chynigion i ddarparu pwerau disgresiwn i awdurdodau lleol gymhwyso ardoll ymwelwyr yn eu hardaloedd ac ar gynigion ar gyfer cynllun cofrestru a thrwyddedu statudol ar gyfer llety ymwelwyr yng Nghymru.

**53.** Bydd yr Ysgrifennydd Cabinet yn ymwybodol o ddewis hirsefydlog y Pwyllgor i'r llywodraeth ymgynghori ar ddeddfwriaeth ddrafft, yn hytrach nag ymgynghori ar gynigion polisi unigol; cynigion polisi nad oeddent oll, yn yr achos hwn, yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Byddai ymgynghori ar Fil drafft wedi rhoi'r cyfle i randdeiliaid ac Aelodau o'r Senedd asesu sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu troi cynigion polisi a newidiadau yn ddarpariaeth ddeddfwriaethol. Yn ein barn ni, mae ymgynghori ar Fil drafft yr un mor bwysig ag ymgynghori ar y bwriadau polisi; maent yn cynrychioli cydrannau gwahanol ond pwysig o ddatblygu deddfwriaeth a dylid eu cynnwys yn amserlen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Dylai ymgynghori ar Fil drafft arwain at ddeddfwriaeth well, sydd wedi'i hystyried yn fwy llawn, a dylai hyn, yn ei dro, olygu y bydd yn fwy tebygol y bydd y canlyniadau polisi a ddeisyfir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cyflawni.

**54.** Nodwn, yn ei hadroddiad blynyddol diweddaraf, y nododd Swyddfa'r Farchnad Fewnol fod mesurau twristiaeth (gan gynnwys ardollau ymwelwyr a thrwyddedu llety gosod tymor byr) yn faes datblygu rheoleiddio sy'n effeithio ar farchnad fewnol y DU, neu a allai effeithio arni. Er ein bod yn cydnabod na thynnwyd pryderon at sylw'r Ysgrifennydd Cabinet ynghylch a allai gweithrediad Deddf Marchnad Fewnol y DU effeithio ar ddarpariaethau yn y Bil, nodwn hefyd nad yw'r Ysgrifennydd Cabinet wedi cael trafodaethau â Swyddfa'r Farchnad Fewnol yn benodol am yr ardoll ymwelwyr. O ystyried barn hysbys Swyddfa'r Farchnad Fewnol am ddatblygu rheoleiddio sy'n ymwneud â mesurau twristiaeth, gan gynnwys ardollau ymwelwyr, nid ydym yn glir pam nad yw'r Ysgrifennydd Cabinet wedi cynnal trafodaethau penodol â Swyddfa'r Farchnad Fewnol ynghylch y Bil i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn effeithiol o ran cyflawni ei hamcanion.

**Argymhelliad 3.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet gadarnhau a wnaeth Llywodraeth Cymru, wrth lunio'r Bil i'w gyflwyno, ystyried adroddiad blynyddol Swyddfa'r

Farchnad Fewnol ar weithrediad marchnad fewnol y DU 2023 i 2024, yn benodol ei farn bod mesurau twristiaeth (gan gynnwys ardollau ymwelwyr a thrwyddedu llety gosod tymor byr) yn faes datblygu rheoleiddio sy'n effeithio ar farchnad fewnol y DU, neu a allai effeithio arni.

**55.** Fel rydym yn pwysleisio uchod, credwn fod y Bil yn cynnwys 22 o bwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau, gorchmynion a chanllawiau; rydym yn deall bod 14 o'r rhain yn bwerau Harri'r Wythfed. Yn ein barn ni, mae ehangder y pwerau sy'n cael eu dirprwyo i Weinidogion Cymru yn y Bil yn sylweddol.

**56.** Nodwn sylwadau'r Ysgrifennydd Cabinet fod y pwerau dirprwyedig yn bennaf ym maes diogelu'r Bil at y dyfodol. Bydd yr Ysgrifennydd Cabinet, unwaith eto, yn ymwybodol o farn hirsefydlog y Pwyllgor nad yw ceisio pwerau dirprwyedig mewn Bil at ddibenion diogelu at y dyfodol am resymau anhysbys, ynddo'i hun, yn gyfiawnhad priodol i gymryd pwerau gweithredol. Bydd bwriadau Gweinidogion presennol Cymru yn cael eu hystyried pan fydd y Senedd yn asesu pwerau a geisir mewn Bil, ond bydd yr Ysgrifennydd Cabinet yn gwybod bod y Pwyllgor bob amser yn ystyried sut y gall llywodraeth yn y dyfodol ddefnyddio pwerau o'r fath.

**57.** Rydym yn trafod pwerau dirprwyedig penodol yn y Bil yn fanylach ym Mhennod 4 o'n hadroddiad.

**58.** Nodwn, y diwrnod ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno, yr ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Cabinet at y Pwyllgor Cyllid yn amgáu darpariaethau Bil drafft yn ymwneud â chofrestru y mae'n bwriadu eu cyflwyno fel gwelliannau os bydd y Bil yn cyrraedd Cyfnod 2. At hynny, nodwn yr ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Cabinet at y Pwyllgor Cyllid eto ym mis Ionawr, yn amlinellu gwelliannau pellach mewn perthynas â rhannu data y mae'n bwriadu eu cyflwyno yng Nghyfnod 2.

**59.** Rydym yn cydnabod ym mha ysbryd y rhannwyd darpariaethau drafft ar gyfer gwelliannau Cyfnod 2 â phwyllgorau'r Senedd ac yn croesawu bwriadau da'r Ysgrifennydd Cabinet. Serch hynny, rydym yn pryderu bod rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru wedi dod yn gamweithredol a bod hyn yn cael effaith negyddol ar waith craffu'r Senedd ar ddeddfwriaeth sylfaenol arfaethedig. Nodir isod ein rhesymeg dros ddod i'r casgliad hwn.

**60.** Yn ein barn ni, mae'n amlwg nad oedd Llywodraeth Cymru yn barod i gyflwyno'r Bil i'r Senedd.

**61.** O ganlyniad i beidio ag adlewyrchu penderfyniadau polisi arwyddocaol yn y ddeddfwriaeth pan gafodd ei chyflwyno, mae'r Bil, yn hytrach, yn cynnwys pwerau eang, y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi cyfaddef y bydd rhai ohonynt yn cael eu dileu o'r Bil neu eu newid yng Nghyfnod 2. Rydym yn pryderu bod y dull hwn yn

gwrthod i'r Senedd ei rôl yn ystyried yr holl faterion perthnasol yn llawn a phecyn gwelliannau cydlynol yn ystod gwaith craffu Cyfnod 1. Ar ben hynny, mae'n cyfyngu ar y cyfle i randdeiliaid ymateb i gynigion y Llywodraeth.

**62.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym nad oedd am weld mwy o oedi i'r ddeddfwriaeth hon oherwydd ei fod yn pryderu y byddai'n creu problemau i Lywodraeth Cymru wrth geisio cael y Bil hwn a'r ail Fil a fydd yn creu system drwyddedu yn y cyfnod sy'n weddill yn y Chweched Senedd hon.

**63.** Yn anffodus, mae'r pwysau amseru y mae Llywodraeth Cymru gyfan bellach yn eu hwynebu - y mae'n gyfrifol amdanynt - yn arwain at gynigion is-optimaidd a heb eu datblygu ddigon ym Miliau'r llywodraeth ac, o ganlyniad, yn cael effaith uniongyrchol ar waith craffu'r Senedd ar ddeddfwriaeth arfaethedig y llywodraeth. Rydym yn deall ei bod yn debygol bod yr Ysgrifennydd Cabinet wedi rhannu'r darpariaethau drafft fel ffordd bosibl o liniaru'r effeithiau hyn ar y broses graffu Cyfnod 1. Fodd bynnag, credwn mai'r ffordd orau o gyflawni rôl ddilys y Senedd yn craffu ar ddeddfwriaeth a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru fyddai cyflwyno i'r Senedd Filiau sy'n ateb y gofyn, wedi'u ffurfio'n llawn.

**64.** Rydym o'r farn bod cyflwyno Bil i'r Senedd nad yw wedi'i ffurfio'n llawn - fel sy'n arbennig o amlwg gydag adrannau 7, 37 a 40 - yn cynrychioli arfer gwael.

**65.** Mae hwn yn Fil sy'n ymdrin â materion trethiant. Rydym wedi nodi ein barn am faterion o'r fath yn ein hadroddiadau ar Fil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu)[53] a'r Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)[54]; rydym yn tynnu'r rhain at sylw'r Senedd.

**66.** Mae nifer o ddarpariaethau yn y Bil y bydd y dull anfoddhaol a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn effeithio arnynt. Rydym yn trafod y materion hyn yn fanylach ym Mhennod 4.

[53] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Fil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu), Ebrill 2022
[54] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Mawrth 2024

# 4. Sylwadau penodol ar Rannau ac adrannau penodol o'r Bil

**67.** Mae'r Bil yn cynnwys 45 o adrannau ac Atodlen, ac mae wedi'i rannu'n bedair Rhan.

## Rhan 2 – Cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr

**68.** Mae Rhan 2 o'r Bil (adrannau 4 i 7) yn darparu ar gyfer cofrestru gorfodol darparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gadw cofrestr o'r darparwyr hynny.

**69.** Mae adran 5 o'r Bil yn gosod dyletswydd ar ddarparwyr llety ymwelwyr i fod yn gofrestredig. Yn ystod trafodaeth y Pwyllgor â'r Ysgrifennydd Cabinet ar 20 Ionawr 2025, dywedwyd wrthym, pe bai darparwr llety ymwelwyr yn cynnig arosiadau dros 31 noson yn unig, na fyddai darparwr o'r fath yn ddarostyngedig i'r gofyniad cofrestru gorfodol yn adran 5(1) o'r Bil mewn cysylltiad â'r llety hwnnw.[55]

**70.** Yn ein llythyr at yr Ysgrifennydd Cabinet ar 23 Ionawr 2025, gofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cabinet esbonio a yw adran 5(1) o'r Bil, pan ddarllenir ef gydag adran 2(1), yn cyfleu'r bwriad polisi hwn yn ddigonol, a sut, o ystyried nad yw'r mathau o lety ymwelwyr a restrir ym mharagraffau (a) i (d) yn y diffiniad o "llety ymwelwyr" yn adran 2(1) yn cyfeirio'n benodol at fod ar gael ar gyfer arosiadau 31 noson neu lai.[56] Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Mae'r llety ymwelwyr a restrir yn adrannau (a)-(d) yn llety ymwelwyr 'nodweddiadol'. Mae ganddynt nodweddion sy'n nodweddiadol o lety ymwelwyr ac maent yn cael eu darparu i ymwelwyr yn gyffredinol. Rydym yn cydnabod nad yw'r mathau hyn o lety ymwelwyr yn debygol o ddarparu arosiadau hirach na 31 noson (ac os ydynt yn gwneud hynny, eithriad fyddai hyn). Felly doedd dim angen cymhwyso'r meini prawf 'tymor byr' i (a)-(d)."*[57]

**71.** Mae'r categorïau a restrir o dan baragraffau (e)-(g) yn debygol o gynnig llety tymor hwy ac efallai mai dim ond y math hwn o lety tymor hwy y byddant yn ei

[55] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [94] a [95]
[56] Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 23 Ionawr 2025, cwestiwn 1
[57] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 5 Chwefror 2025, ymateb i gwestiwn 1

ddarparu. Er enghraifft, llety i ymwelwyr mewn ystafell a rennir mewn eiddo, sy'n cael ei ddarparu i rywun sy'n gweithio yn yr ardal am gyfnod estynedig. Efallai mai dyma'r unig fath o lety sy'n cael ei ddarparu a heb gymhwyso'r meini prawf tymor byr byddai gofyn iddynt gofrestru, er bod yr ymwelydd yn yr ystyr hwn yn meddiannu'r llety yn fwy parhaol.[58]

**72.** Mae adran 6 yn gwneud darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi gwybodaeth sy'n deillio o'r gofrestr "mewn unrhyw fodd y maent yn ystyried ei fod yn briodol".

**73.** Gofynnwyd a fyddai gwybodaeth am bobl sy'n darparu llety yn eu cartrefi eu hunain - llety Airbnb, er enghraifft - yn cael ei nodi yn y gofrestr gyhoeddus. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Na. Mae hwnnw'n gwestiwn da. Bydd y gofrestr yn ddogfen gyhoeddus, ond nid popeth. Ac yn enwedig pan fydd pobl yn rhoi llety i bobl yn eu cartrefi eu hunain, dwi ddim yn meddwl bod hwnna'n rhywbeth rŷn ni eisiau i bob un ei weld. Bydd y rhan fwyaf o'r gofrestr ar gael i'r cyhoedd, bydd pobl yn gallu ei weld e, ond am rai pethau sy'n fwy penodol i'r unigolyn, fe allwn ni gael eithriad i wybodaeth fel yna. Ni fydd hwnna ar agor i bawb."*[59]

**74.** Ychwanegodd swyddog a oedd gyda'r Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

> *"In terms of the full data, part of the goal of the register is to have that data. That's one of the key aspects right now. I think we reference it quite a lot in the explanatory memorandum and regulatory impact assessment that the data isn't great about the accommodation sector, and the value added by the register is that we will have accurate data. But in terms of what components of that become public, we're really conscious of, obviously, not providing too much private information, and so there's going to be a fairly thoughtful way of making sure that we're not revealing too much private information, but at the same time being able to use that data for policy purposes is really important. So, we're trying to strike that balance."*[60]

---

[58] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 5 Chwefror 2025, ymateb i gwestiwn 1
[59] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [45]
[60] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [48]

**75.** Mae adran 7 yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau helaeth i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth gofrestru, gan gynnwys gweithdrefn gofrestru, datgelu gwybodaeth a gorfodi. O ystyried bod Llywodraeth Cymru yn datblygu darpariaethau pellach mewn perthynas â gorfodi yn barod ar gyfer Cyfnod 2, gofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cabinet ddarparu eglurder o ran adran 7 fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"… the Government has published, made available, clauses that we will intend to introduce as Stage 2 amendments. If those amendments succeed, then, instead of the regulation-making power that is currently in the Bill and is there, let's be frank, as a placeholder, because unless you have a reference to these matters on the face of the Bill, you've got nothing to amend—. But the Government's intention is to amend those powers to put these matters on the face of the Bill, rather than to deal with them by regulation."*[61]

**76.** Aeth yr Ysgrifennydd Cabinet ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"I know that some of the concerns that have been raised are that, as the Bill currently is drafted, it might give Ministers the power by regulation to introduce criminal offences where the register requirements are not complied with. Just to be clear with the committee that the clauses that the Government intends to introduce at Stage 2 will not create criminal offences. My decision has been that you need to make the penalty proportionate to the nature of the harm, and that it is better that where these provisions are not complied with you must have a penalty, but it will be a civil penalty, it will be a monetary penalty and will not, if the Stage 2 amendments succeed, result in a criminal offence having been committed."*[62]

**77.** Yn ein llythyr at yr Ysgrifennydd Cabinet ar 23 Ionawr 2025, gofynnwyd iddo, os bydd y Bil yn cael ei basio a'i ddeddfu, pryd y mae'n rhagweld y bydd y darpariaethau cofrestru yn Rhan 2 o'r Bil a'r is-ddeddfwriaeth sy'n cyd-fynd â'r Bil mewn grym yn llawn. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Bydd Rhan 2 o'r Bil yn dod i rym drwy orchmynion a wneir drwy offeryn statudol. Rydym yn bwriadu dechrau Rhan 2 yn ôl ardal prif gyngor fel y gallwn gyflwyno'r broses gofrestru ar draws*

[61] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [64]
[62] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [65]

> *Cymru yn raddol, gan flaenoriaethu'r ardaloedd hynny sy'n bwriadu defnyddio ardoll ymwelwyr yn gyntaf ac yna ardaloedd sydd â chyfran uwch o letyau ymwelwyr. Ein nod yw cwblhau'r broses gofrestru erbyn 2028."*[63]

## Rhan 3 – Ardoll ymwelwyr

**78.** Mae Rhan 3 o'r Bil (adrannau 8 i 38) yn rhoi'r pŵer i brif gynghorau yng Nghymru gyflwyno, yn eu hardaloedd, yr ardoll ar arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr, ac yn cyflwyno Atodlen 1 i'r Bil.

**79.** Mae Atodlen 1 i'r Bil yn gwneud cyfres o welliannau i *Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016*. Sefydlodd Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 fframwaith ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC), a ddaeth yn weithredol ym mis Ebrill 2018. Mae'r darpariaethau yn Atodlen 1 yn estyn swyddogaethau ACC fel bod ei gylch gwaith hefyd yn cynnwys casglu a rheoli'r ardoll.

**80.** Mae adran 9 yn diffinio arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr. Mae is-adran (5) yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau Harri'r Wythfed i Weinidogion Cymru ddiwygio'r amgylchiadau pan fo arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr yn digwydd ac a yw'r ardoll i'w chodi. Gofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cabinet pam y mae'n credu bod y pŵer hwn yn angenrheidiol ac yn briodol. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"In general… you need to futureproof the operation of the Bill. There are two powers in the Bill that are closely related, but different. The power to which Laura Anne Jones refers is where you would want to make sure that where there is existing accommodation the people occupying it are not made subject to the visitor levy. So, if I could give you just one practical example with which I was very familiar, since Russia declared war on Ukraine, we have had thousands of people come to live here in Wales. It was the view of the Welsh Government, and, indeed, the view of the Senedd, that we should do everything we could to welcome those people to Wales and to create circumstances in which they could be resettled here in the most helpful way. One of the ways that we did that at the height of the numbers of people coming to Wales was to take over a number of holiday parks across Wales, holiday parks*

[63] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 5 Chwefror 2025, ymateb i gwestiwn 12

*with self-contained accommodation, and to use that accommodation for the reception of people coming to Wales from Ukraine. Now, in the normal course of events, people staying in a holiday park, in a self-contained chalet, for example, will be subject to a visitor levy, but you wouldn't want people coming from elsewhere in the world for purposes of resettlement to be charged a visitor levy. So, what this power does is it would allow you to redesignate existing visitor accommodation as not being subject to the levy should you need it in those sorts of circumstances. So, it's a futureproofing part of the Bill, and it's designed to make sure that we can respond to changing uses of existing accommodation."*[64]

**81.** Mae adran 12 o'r Bil yn nodi cyfraddau'r ardoll, fel a ganlyn:

a. y gyfradd is yw £0.75,

b. y gyfradd uwch yw £1.25, ac

c. y gyfradd o ddim yw £0.

**82.** Mae is-adran (1) hefyd yn darparu bod y cyfraddau hyn yn ddarostyngedig i ddarpariaeth cyfradd premiwm y gwneir darpariaeth ar ei chyfer yn adran 14. Mae is-adran (2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r cyfraddau is ac uwch drwy ddefnyddio rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu gadarnhaol ddrafft.

**83.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, mae Cynghrair Twristiaeth Cymru yn awgrymu na ddylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r pwerau arfaethedig i newid cyfraddau'r ardoll am gyfnod penodol i ganiatáu i'r system ymsefydlu.[65] Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet a fyddai'n fodlon ceisio diwygio'r Bil er mwyn rhoi effaith i'r awgrym hwnnw. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

*"… I'm willing to listen carefully to what the committee says on that. It's not the intention of the Government that those sums of money should be changed rapidly. There'll come a point, if you don't change them, when inflation will erode them and their real value will be reduced and you will need to uprate them in line with inflation. And inflation itself can happen more quickly*

[64] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [69]
[65] Tystiolaeth ysgrifenedig gan Gynghrair Twristiaeth Cymru

> *than was anticipated. But if the committee feels that there is a strong case for a short set period in which those sums of money could not be changed, then I'm very happy to listen carefully to what the committee concludes."*[66]

**84.** Mewn perthynas â'r pŵer yn adran 12(2), ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

> *"The intention of the power, as drafted, is to allow us simply to keep the current levels, to sustain their real value, not in order to be able to increase them."*[67]

**85.** Mae adran 13 yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â phenderfynu pa gyfradd fydd yn gymwys i arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr.

**86.** Mae adran 13 yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau Harri'r Wythfed i Weinidogion Cymru amrywio'r mathau o arhosiad dros nos a fydd yn denu cyfraddau is neu uwch yr ardoll neu gyfradd o ddim yr ardoll. Gofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cabinet esbonio pam y mae angen y pwerau hyn. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym fod adran 13 yn edrych tua'r dyfodol ac yn rhoi pwerau i'r Gweinidogion ymateb i'r posibiliadau y bydd pethau newydd yn codi. Dywedodd fod adran 13 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ymateb i natur y busnes pan fydd natur y busnes hwnnw yn newid.[68]

**87.** Ychwanegodd swyddog a oedd gyda'r Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

> *"The intention with the lower rate, for example, is to try and have the lower rate for those types of accommodation that are the lowest cost, and, in the future, there might be some other accommodation; we might get policy evidence that's coming through that there might be other accommodation that might fall into that category, and it might be an appropriate thing to include, therefore, that type of accommodation within that lower rate category. Or, for example, there might be situations where we're understanding about how, potentially, homeless people are housed in certain ways, and we want to make sure we're accommodating those within the nil rate category, where the intention is not for homeless people who are housed by local authorities in certain situations to be subject to the visitor*

[66] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [75]
[67] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [78]
[68] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [81]

*levy. So, we want to allow for some flexibility to futureproof in those circumstances, and so that's what the intention is with that. It's also related to documentation that the Welsh Revenue Authority may need, and that's also included in this. So, there might be situations where the Welsh Revenue Authority may require different types of documentation, and that's also included in the regulations."*[69]

**88.** Ychwanegodd swyddog arall a oedd gyda'r Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

*"I suppose it's the concept of visitor accommodation not being used as you would normally expect visitor accommodation to be used. So, the key nil rate we've got in the Bill at the moment relates to those homelessness-related stays, but, of course, in the future, there may be other uses that we simply can't account for at this moment in time where we would wish the legislation to reflect that.*

*And then there's another concept within here—another regulation power—that relates to exemption vouchers. Now, that is a manner in which a voucher can be provided via either the WRA or the council to an individual that would qualify them for a nil rate, without them having to disclose any particular sensitive information in that scenario. So, again, that just comes back to futureproofing. Should that need emerge, there is a power there to make sure that happens."*[70]

**89.** Fel y nodwyd uchod ym mharagraff 82, bydd adran 14 o'r Bil yn caniatáu i brif gyngor godi premiwm ar gyfraddau'r ardoll ac mae'n creu pŵer i Weinidogion Cymru bennu uchafswm y premiwm hwnnw. Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet pam nad yw'n bwriadu pennu ar wyneb y Bil uchafswm ar gyfer y premiwm hwnnw, canran uwchben cyfradd uwch yr ardoll, er enghraifft.

**90.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym ei fod o'r farn bod y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wrth wraidd y Bil. Dywedodd fod y berthynas yr oedd am ei gweld yn un lle y mae llawer iawn o ymddiriedaeth, a'i fod yn teimlo y gallai'r Llywodraeth ddibynnu ar awdurdodau lleol i ddefnyddio'r pwerau fydd ganddynt mewn ffordd resymol. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet

[69] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [82]
[70] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [83] a [84]

hefyd y byddai gan Weinidogion Cymru y pŵer i gamu i'r adwy os na fydd pethau fel y byddai wedi dymuno.[71]

**91.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym hefyd ei fod yn credu ei bod yn bosibl, gyda'r Bil fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, i awdurdodau lleol ymgynghori ar yr un pryd ynghylch eisiau defnyddio'r pŵer i gyflwyno ardoll ymwelwyr a'r pŵer i gael cyfradd premiwm. Dywedodd ei fod am ystyried gwelliant yng Nghyfnod 2 fel na all hynny ddigwydd.[72]

**92.** Nodwyd nad oes manylion yn y Bil ar hyn o bryd ynghylch cwynion posibl gan aelodau lleol o'r cyhoedd neu gyngor cymuned, er enghraifft, pan fyddant yn teimlo nad yw rhywun yn gofrestredig a ddylai fod wedi cofrestru. Nodwyd hefyd nad oes gwybodaeth wedi'i darparu am y weithdrefn gwyno. Gwnaethom ofyn pa bwerau a gweithdrefnau y bydd ACC yn eu dilyn os gwneir cwyn nad yw rhywun ar y gofrestr. Gwnaethom ofyn hefyd a yw'r Ysgrifennydd Cabinet yn bwriadu rhannu'r gweithdrefnau drafft hynny yn ystod proses graffu Cyfnod 1, ac ai ei fwriad ef yw ychwanegu at wyneb y Bil y darpariaethau sy'n rhoi effaith i'r gweithdrefnau hyn.[73] Ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Cabinet atom ar 17 Chwefror 2025 yn datgan y canlynol:

> *"Bydd y system ar gyfer casglu gwybodaeth gyhoeddus mewn perthynas â'r gofrestr genedlaethol o lety ymwelwyr yn rhan o ddatblygu'r gofrestr yn y dyfodol. Nid oes angen pwerau ar wyneb y Bil i hwyluso hyn."*[74]

**93.** Mae adran 17 yn ymdrin â darparwr llety ymwelwyr yn dychwelyd ffurflenni blynyddol neu chwarterol.

**94.** Mae adran 17(3)(a) yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau Harri'r Wythfed i Weinidogion Cymru ddiwygio adran 17 mewn perthynas â symiau trothwy'r ffurflenni blynyddol. Fel y nodwn ym Mhennod 2, mae'r pŵer hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu negyddol. Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet pam y daeth i'r casgliad mai dyma'r weithdrefn briodol ar gyfer defnyddio'r pŵer hwn. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Because I think it is entirely operational, Chair. So, the Bill provides that if you collect less than £1,000 in the visitor levy, you are able to provide an annual return or a quarterly return.*

[71] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [86]
[72] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [87] a [88]
[73] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [90]
[74] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 17 Chwefror 2025

*Just as we were talking earlier about needing to sustain the real value of that £1,000 threshold, at some point in the future we will need to come forward with a new threshold. I did not myself think that it was necessary to have a debate and a vote on the floor of the Senedd to keep the real value of the £1,000 threshold every time you move it to £1,050, and so on. So, I think, in that sense, it is just a power to keep what's in the Bill real for the future."*[75]

**95.** Mae adran 21 o'r Bil yn cyflwyno Atodlen 1. Fel y nodwn uchod ym mharagraff 79, mae Atodlen 1 yn gwneud cyfres o welliannau i Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016.

**96.** Mae paragraff 5 o Atodlen 1 yn cynnwys datgeliad newydd a ganiateir o wybodaeth warchodedig am drethdalwr at ddibenion swyddogaethau ACC. Mae hyn yn ehangach na datgelu mewn perthynas â'r ardoll. Yn ein llythyr at yr Ysgrifennydd Cabinet ar 23 Ionawr 2025, gofynnwyd am esboniad pam y mae hyn yn angenrheidiol. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

*"Bydd y newid arfaethedig yn ehangu'r ffyrdd a ganiateir gan ACC ar gyfer datgelu Gwybodaeth Drethdalwyr Warchodedig i achosion lle gellir rhannu'r wybodaeth hon yn unol â swyddogaethau cyffredinol ACC, sef casglu a rheoli trethi datganoledig a'r ardoll ymwelwyr. Mae'r gwelliant hwn i'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi yn angenrheidiol er mwyn gweinyddu'r ardoll ymwelwyr yn effeithiol yn ogystal â chasglu a rheoli'r trethi datganoledig.*

*Yn ystod wyth mlynedd a rhagor o weithredu'r ACC, nodwyd bod sefyllfaoedd penodol lle nad ydynt yn gallu cyfathrebu'n effeithiol â threthdalwyr am eu hachosion oherwydd y cyfyngiadau ar rannu Gwybodaeth Drethdalwyr Warchodedig.*

*Bydd gallu gwneud datgeliadau o'r fath yn cynorthwyo ACC i weithredu'r ardoll a'r trethi cyfredol o ddydd i ddydd. Mae hyn yn cysoni sefyllfa ACC â CThEM. Ymgynghorwyd â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar y newid arfaethedig ac maent yn fodlon â'r rhesymeg dros wneud y newid hwn i'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi yn ei chyfanrwydd yn hytrach nag ar gyfer yr ardoll ymwelwyr yn unig. Mae'r esboniadau llawn a'r rhesymeg*

[75] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [100]

> *dros y newid hwn wedi'u nodi yn yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Bil."*[76]

**97.** Mae paragraff 17 o Atodlen 1 yn dileu gofyniad presennol i ACC geisio cymeradwyaeth y tribiwnlys cyn cyhoeddi hysbysiad trethdalwr sy'n ei gwneud yn ofynnol i drethdalwyr ddarparu gwybodaeth neu ddogfennau. Gofynnwyd hefyd i'r Ysgrifennydd Cabinet pam y mae wedi dewis dileu'r elfen honno o warchod trethdalwyr yn y Bil hwn. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol wrthym:

> *"Bydd y Bil hwn yn dileu'r gofyniad i ACC geisio cymeradwyaeth tribiwnlys cyn cyhoeddi hysbysiad trethdalwr mewn perthynas â'r trethi datganoledig a'r ardoll ymwelwyr. Bydd hyn yn gwella effeithlonrwydd gweinyddu pob treth y mae ACC yn ei chasglu a'i rheoli. Bydd y penderfyniad i gyhoeddi hysbysiad gwybodaeth yn dal i fod yn benderfyniad y gellir apelio yn ei erbyn i sicrhau system cadw cydbwysedd. Mae hyn yn cysoni pwerau'r ACC â phwerau'r HMRC."*[77]

**98.** Bydd adran 24 yn ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor gyflwyno adroddiad ar y defnydd o elw o'r ardoll. Mae adran 24(4) yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau Harri'r Wythfed a fydd, os caiff ei arfer, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu negyddol. Gofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cabinet pam y barnwyd bod y weithdrefn negyddol yn briodol. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Chair, essentially, the negative procedure is chosen here because the use of this power that we envisage is if a local authority needs a brief extension of a week or so in order to comply with the timetables that the Bill sets out, and I wasn't sure that the Senedd would expect to hear that and to vote upon whether or not to allow that to happen. This clause, though, does go beyond that and would allow changes to the way in which local authorities report on the levy that is raised. And, again, I'm very willing to think carefully about points that the committee might want to make. I would need a lot of persuasion that section 17(3)(a) and 17(3)(b) would need to be subject to the draft affirmative procedure. I think there is a more closely balanced argument in relation to section 24(4)*

---

[76] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 5 Chwefror 2025, ymateb i gwestiwn 7

[77] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 5 Chwefror 2025, ymateb i gwestiwn 8

> *and I look forward reading what the committee concludes on that."*[78]

**99.** Mae adran 25, yn ogystal ag adran 26, yn nodi'r gofynion ymgynghori a fydd yn cael eu gosod ar brif gyngor cyn cyflwyno, newid neu ddiddymu'r ardoll.

**100.** Mae adran 25(9) yn darparu y gall camau a gymerir cyn i'r adran ddod i rym fodloni gofynion yr adran. Daw adran 25 i rym ar y diwrnod ar ôl y Cydsyniad Brenhinol. Yn ein llythyr at yr Ysgrifennydd Cabinet ar 23 Ionawr 2025, gofynnwyd a fyddai adran 25(9) mewn gwirionedd yn caniatáu i brif gynghorau fod yn cymryd y camau sy'n ofynnol gan adran 25 nawr, ar y sail dybiedig y bydd y darpariaethau hyn yn dod yn gyfraith. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Heb os, byddai prif gynghorau eisiau sicrwydd nad yw unrhyw wariant ganddynt yn wastraff o ymdrech nac arian. Felly, rydym yn rhagweld y bydd y prif gynghorau yn aros tan ddiwedd proses y Bil cyn ymgymryd ag unrhyw ymgynghoriad ffurfiol, neu baratoi ar gyfer ymgynghoriad o'r fath. Ond yn y pen draw, penderfyniad i bob cyngor ei wneud ar sail eu cyngor eu hunain yw hyn."*[79]

**101.** Mae adran 37 yn darparu pŵer gwneud rheoliadau helaeth i Weinidogion Cymru osod gofynion hysbysebu a bilio ar ddarparwyr llety ymwelwyr, gan gynnwys y gallu i osod sancsiynau sifil a darpariaethau apelio. Yn y Datganiad o Fwriad y Polisi, disgrifir y pŵer fel un "eang yn fwriadol". Yn ein llythyr at yr Ysgrifennydd Cabinet ar 23 Ionawr 2025, gofynnwyd pam na wnaeth y Llywodraeth ddatblygu polisi ar y materion hyn a chynnwys darpariaeth fanwl ar wyneb y Bil, yn hytrach na cheisio pŵer 'eang yn fwriadol'. Datganodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

> *"Rydym yn cydnabod ei bod yn debygol iawn y byddai darparwyr llety ymwelwyr yn trosglwyddo'r ardoll i ymwelwyr. Mae hon yn effaith a fwriedir fel treth anuniongyrchol ar arosiadau ymwelwyr dros nos. Yn aml nid oes gan drethi anuniongyrchol fel TAW neu Dreth Teithwyr Awyr ddarpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r dreth gael ei phasio ymlaen, ond fe'i trosglwyddir i ddefnyddwyr serch hynny. Rydym yn rhagweld, pe bai darparwyr yn trosglwyddo'r ardoll, y byddent yn gwneud hynny mewn modd clir ac yn darparu*

[78] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 20 Ionawr 2025, Cofnod y Trafodion [102]
[79] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 5 Chwefror 2025, ymateb i gwestiwn 2

> *unrhyw dderbynneb neu wybodaeth angenrheidiol y gofynnir amdani gan ymwelydd.*
>
> *Fodd bynnag, rydym yn nodi'r risg o anghysondebau wrth i ddarparwyr roi hyn ar waith, a all arwain at ddryswch. Rydym wedi cynnwys y pŵer hwn i wneud rheoliadau pe bai unrhyw ddryswch, camwybodaeth neu anghywirdebau yn digwydd pan fydd darparwyr yn codi'r ardoll i ymwelwyr. Nid oes gennym unrhyw fwriad ar hyn o bryd i arfer y pŵer hwn, ond efallai y bydd yn angenrheidiol yn y dyfodol."*[80]

## Rhan 4 – Darpariaeth amrywiol a chyffredinol

**102.** Mae Rhan 4 o'r Bil (adrannau 39 i 45) yn gwneud darpariaeth ynghylch canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r ardoll neu gofrestru; yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru "estyn" darpariaethau'r Bil ynghylch cofrestru a'r ardoll i ddocfeydd ac angorfeydd a ddarperir ar gyfer llestrau; ac mae'n cynnwys darpariaeth gyffredinol ar ddehongli, cychwyn, enw byr y Bil a rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y pwerau a gynigir yn y Bil.

**103.** Mae adran 39 yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ar yr ardoll neu'r cynllun cofrestru. Nid oes gweithdrefn y Senedd ynghlwm wrth y pŵer arfaethedig hwn. Gofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cabinet pam y byddai'n briodol i'r Llywodraeth gyhoeddi canllawiau statudol heb waith craffu gan y Senedd. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol wrthym:

> *"Bwriad y pŵer i gyhoeddi canllawiau yw hwyluso'r broses o weithredu'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Bydd y canllawiau yn ymwneud yn bennaf â'r broses weithredol ac, o'r herwydd, bydd proses graffu'r Senedd eisoes wedi digwydd. Bydd yn egluro agweddau ar y gyfraith, yn hytrach na'u disodli. Yn gyffredinol, does dim angen i ganllawiau fod yn destun proses graffu'r Senedd. Byddwn hefyd yn ymgynghori cyn cyhoeddi canllawiau i sicrhau bod barn rhanddeiliaid yn cael eu hadlewyrchu, sy'n sicrhau craffu digonol."*[81]

**104.** Fel y nodwyd uchod, mae adran 40 yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau Harri'r Wythfed helaeth a fydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio'r Bil (os

[80] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 5 Chwefror 2025, ymateb i gwestiwn 3
[81] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 5 Chwefror 2025, ymateb i gwestiwn 4

caiff ei ddeddfu a phan fo hynny'n digwydd) ac i ddiwygio Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 fel y gellir cymhwyso Rhannau 2 a 3 o'r Bil, gydag addasiadau neu hebddynt, i ddocfeydd ac angorfeydd a ddarperir ar gyfer llestrau. Nid oes llawer o wybodaeth, os o gwbl, yn y Memorandwm Esboniadol sy'n esbonio'r rhesymeg y tu ôl i gynnwys y pŵer helaeth hwn yn y Bil, ac nid archwiliwyd cymhwyso'r ardoll ymwelwyr i ddocfeydd ac angorfeydd yn ystod ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ei chynigion.

**105.** Mae'r Pwyllgor wedi mynegi pryderon o'r blaen ynghylch rhychwant y pwerau is-ddeddfwriaeth a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â threthi datganoledig. Yn ein llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet ar 23 Ionawr 2025, gofynnwyd pam y mae Llywodraeth Cymru wedi dewis ceisio pŵer Harri'r Wythfed sylweddol eang yn adran 40 i estyn y darpariaethau yn y Bil hwn i ddocfeydd ac angorfeydd. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Rydym wedi ymgynghori â'r sector morol wrth ddatblygu'r polisi hwn. Daeth yn amlwg bod y sector hwn yn gweithredu mewn ffordd wahanol i fathau eraill o lety ymwelwyr. Felly, byddwn yn ceisio parhau â'n trafodaethau i ystyried sut y gallai'r ardoll weithio yng nghyd-destun angorfeydd a docfeydd."*[82]

**106.** Gofynnwyd hefyd pam y mae'r Ysgrifennydd Cabinet o'r farn bod y dull hwn yn fwy priodol na chyflwyno cynigion mewn deddfwriaeth sylfaenol yn y dyfodol. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol wrthym:

> *"Bydd y dull hwn yn rhoi cyfle i barhau i drafod y cynnig gyda'r sector. Pe bai ardoll yn berthnasol i'r sector, hoffem iddo fod yn gyson â'n cynigion a nodir yn y Bil. Felly, mae pwerau rheoleiddio i ymestyn y ddeddf i angorfeydd a docfeydd yn caniatáu dull o'r fath."*[83]

**107.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r pwyllgor, mynegodd British Marine Wales bryder ynghylch estyniad posibl yr ardoll yn y dyfodol, gan ddatgan bod y Bil yn dangos ychydig iawn o ddealltwriaeth o'r diwydiant morol hamdden a'r heriau a'r hurtrwydd a fydd yn codi os yw'r ardoll yn cael ei chymhwyso i gychod

[82] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 5 Chwefror 2025, ymateb i gwestiwn 5(a)
[83] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 5 Chwefror 2025, ymateb i gwestiwn 5(b)

hamdden[84]. Gofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cabinet a fyddai'n ystyried eithrio badau hamdden o gwmpas y pŵer yn adran 40. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"Mae'n rhaid i ni ystyried y mater o safbwynt tegwch. Ydy hi'n deg i rywun ar gwch hwylio sydd wedi ei angori mewn marina dros nos osgoi gorfod talu ardoll ond bod rhywun sy'n aros mewn gwesty cyfagos yn gorfod ei dalu? Rydym yn cydnabod y byddai rhai heriau ymarferol wrth gymhwyso'r ardoll i angorfeydd a docfeydd. Mae cynnwys pwerau gwneud rheoliadau yn caniatáu ar gyfer ymgynghori ymhellach i ystyried y materion ymarferol hyn."*[85]

**108.** O dan y Bil fel y'i ddrafftiwyd ar hyn o bryd, ni fydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn defnyddio unrhyw un o'r pwerau a ddirprwywyd iddynt. Yn ein llythyr at yr Ysgrifennydd Cabinet ar 23 Ionawr 2025, gofynnwyd a yw wedi ystyried a ddylai Gweinidogion Cymru fod o dan ddyletswydd statudol i ymgynghori cyn defnyddio unrhyw un o'r pwerau dirprwyedig yn y Bil. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol wrthym:

> *"Lle bo'n briodol, ein bwriad yw ymgynghori ar y defnydd o reoliadau. Fodd bynnag, byddai hyn yn cael ei ystyried fesul achos unigol, felly nid ydym yn credu bod angen iddo fod o dan ddyletswydd statudol."*[86]

## Ein barn ni

### Rhan 1

**109.** Nodwn fod adran 2(1) o'r Bil yn diffinio "llety ymwelwyr". At hynny, rydym yn nodi, at ddibenion is-adran (1), fod is-adran (3) o adran 2 yn darparu bod llety ar gael ar sail tymor byr os yw ar gael ar gyfer arhosiad 31 noson neu lai. Ymhellach, nodwn fod adran 3(2) yn diffinio darparwr llety ymwelwyr.

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet esbonio'r amgylchiadau pan fydd angen i ddarparwr llety ymwelwyr achlysurol gofrestru yn unol â Rhan 2 o'r Bil.

**110.** Nodwn fod pŵer gwneud rheoliadau Harri'r Wythfed yn adran 2(5) yn caniatáu diwygio adran 2 i amrywio ystyr "llety ymwelwyr" at ddibenion y Bil.

[84] Tystiolaeth ysgrifenedig gan British Marine Wales
[85] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 5 Chwefror 2025, ymateb i gwestiwn 5(c)
[86] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 5 Chwefror 2025, ymateb i gwestiwn 6

**Casgliad 1.** Mae'r pŵer gwneud rheoliadau yn adran 2(5) yn bŵer sylweddol. Gall newid ystyr "llety ymwelwyr" estyn atebolrwydd trethdalwyr o dan y Bil (os caiff ei ddeddfu a phan fo hynny'n digwydd), a dylai'r Senedd gydnabod hyn.

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet gadarnhau a ystyriodd Llywodraeth Cymru wneud y pŵer gwneud rheoliadau yn adran 2(5) o'r Bil yn ddarostyngedig i weithdrefn uwchgadarnhaol o ystyried y gallai estyn atebolrwydd trethdalwyr.

### Rhan 2

**111.** Nodwn y dystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet ynghylch Rhan 2 o'r Bil.

**112.** Nodwn y dystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet ar adran 5 o'r Bil, yn enwedig o ran y cydadwaith rhwng adran 5(1) (y ddyletswydd i ddarparwr llety ymwelwyr fod yn gofrestredig) pan gaiff ei darllen gydag adran 2(1) (ystyr darparwr llety ymwelwyr).

**113.** Nodwn y dystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet ar adran 6 o'r Bil. Yn benodol, nodwn ei sylwadau, er y bydd y gofrestr yn ddogfen gyhoeddus, na fydd yr holl ddata a gipir yn cael eu cynnwys yn y fersiwn gyhoeddedig, er enghraifft pan ddarperir llety ymwelwyr yng nghartref rhywun ei hun.

**114.** Er ein bod yn cydnabod y sylwadau hyn, nid ydym yn glir sut y bydd set o ddata a allai fod yn anghyflawn sydd ar gael i'r cyhoedd yn cyflawni nod cyffredinol y ddeddfwriaeth a sut y bydd yn helpu i gyrraedd nod sicrhau system gofrestru ddigonol.

**115.** Ar ben hynny, nodwn ei bod yn ymddangos bod y darpariaethau cofrestru yn y Bil yn waith sydd ar droed, o ystyried gohebiaeth yr Ysgrifennydd Cabinet at y Pwyllgor Cyllid lle y mae'n datgan ei fod yn bwriadu cynnig gwelliannau i'r Bil yng Nghyfnod 2 o ran cyhoeddi data a rhannu data yn ehangach. Mae hyn, unwaith eto, yn ychwanegu at ein pryderon eang bod y Bil fel y'i cyflwynwyd yn adlewyrchu polisi llywodraeth nad yw wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

**116.** Yn anffodus, yn ein barn ni, mae adran 7 o'r Bil yn cynrychioli darlun clir o'r anawsterau i'r Senedd wrth ystyried deddfwriaeth sy'n dal i gael ei datblygu'n weithredol gan Lywodraeth Cymru yng Nghyfnod 1.

**117.** Fel y datganwn uchod ym mharagraff 59, mae gan y camweithrediad ymddangosiadol o ran y modd y mae deddfwriaeth arfaethedig yn cael ei threfnu yn Llywodraeth Cymru oblygiadau ar gyfer gwaith craffu'r Senedd.

**118.** Unwaith eto, rydym yn cydnabod bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn debygol o fod â bwriadau da wrth roi rhybudd ymlaen llaw i bwyllgorau'r Senedd o gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer gwelliannau os bydd y Senedd yn derbyn ei hegwyddorion cyffredinol.

**119.** Fodd bynnag, mae bwriad y Llywodraeth o ran system gofrestru wedi dod yn niwlog drwy ryddhau drafft dangosol ar gyfer darpariaethau newydd yn fuan ar ôl i waith craffu Cyfnod 1 ddechrau.

**120.** Er enghraifft, mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn cynnig pŵer i greu trosedd; ers hynny, mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi dweud wrth bwyllgorau'r Senedd y bydd darpariaeth cosb sifil yn ei ddisodli. Mae priodoldeb sancsiwn troseddol yn erbyn cosb sifil yn bethau gwahanol iawn i bwyllgor y Senedd, a rhanddeiliaid, eu hystyried wrth edrych ar ddeddfwriaeth arfaethedig; byddai'r Pwyllgor fel arfer yn disgwyl i droseddau newydd gael eu cynnig mewn deddfwriaeth sylfaenol yn unig.

**121.** Ar ben hynny, nid yw'n glir i ni beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei fwriadu mewn cysylltiad ag adran 7(d) (gorfodi) o ystyried y drafft dangosol ar gyfer darpariaethau newydd a ddatgelwyd ar ddechrau Cyfnod 1.

**122.** Rydym yn parhau i fod yn aneglur ynghylch a fydd y pŵer i greu trosedd (neu gosbau) yn adran 7(d) yn cael ei gadw ar ryw ffurf, os bydd yr Ysgrifennydd Cabinet yn cyflwyno'r gwelliannau ar ffurf y darpariaethau drafft a rannwyd â phwyllgorau'r Senedd, ac mae hyn yn rhywbeth y dylai'r Ysgrifennydd Cabinet ei egluro cyn y ddadl Cyfnod 1.

**123.** At hynny, nodwn fod yr Ysgrifennydd Cabinet wedi dweud wrth y Pwyllgor Cyllid, fel rhan o'r cynigion y mae'n bwriadu eu cyflwyno yng Nghyfnod 2 yn galluogi ACC i rannu data cofrestru â chyrff cyhoeddus eraill, fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys pŵer gwneud rheoliadau pellach drwy'r broses ddiwygio er mwyn galluogi datgeliadau eraill o'r gofrestr yn y dyfodol. Unwaith eto, nid ydym yn glir sut y bydd y pŵer arfaethedig hwn yn cael ei strwythuro, gweithdrefn graffu'r Senedd a fydd yn gymwys iddo, neu sut y bydd yn effeithio ar y pŵer arfaethedig yn adran bresennol 7(c) sydd eisoes yn cynnig pŵer sy'n awdurdodi neu'n gofyn datgelu gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y gofrestr.

**Argymhelliad 6.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet roi esboniad i'r Senedd o unrhyw bŵer neu bwerau arfaethedig ychwanegol y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei gyflwyno neu eu cyflwyno yng Nghyfnod 2 ynghylch cofrestru darparwyr llety ymwelwyr a data cysylltiedig, gan gynnwys:

- gweithdrefn graffu'r Senedd y mae'r Llywodraeth yn cynnig y bydd yn gymwys i'r pŵer hwnnw neu'r pwerau hynny, a
- yr effaith gysylltiedig ar y pwerau arfaethedig a gynhwysir yn y Bil fel y'i cyflwynwyd.

**Argymhelliad 7.** O leiaf, ni ddylai pŵer y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei gadw mewn cysylltiad â gosod cosbau gael ei defnyddio er mwyn cael effaith ôl-weithredol.

**124.** O ran darpariaethau dod i rym Rhan 2 o'r Bil, nodwn mai bwriad yr Ysgrifennydd Cabinet yw cychwyn Rhan 2 fesul ardal prif gyngor yn raddol, yn blaenoriaethu'r ardaloedd sy'n bwriadu defnyddio ardoll ymwelwyr yn gyntaf ac yna ardaloedd sydd â chyfran uwch o lety ymwelwyr. Ymhellach, nodwn fod yr Ysgrifennydd Cabinet yn bwriadu cwblhau'r broses gofrestru erbyn 2028.

**125.** Wrth nodi'r sylwadau hyn, rydym yn pwysleisio mai bwriadau'r Ysgrifennydd Cabinet hwn yw'r rhain. Credwn ei bod yn bwysig cydnabod y bydd Rhan 2 o'r Bil, fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, yn dod i rym drwy orchmynion a wneir drwy offeryn statudol.

**126.** Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig sefydlu cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr. Gan y bydd cofrestr o bwys i weithrediad llwyddiannus ardoll ymwelwyr yng Nghymru, credwn y dylai fod sicrwydd yn y gyfraith ynghylch pryd y bydd y gofrestr yn weithredol.

**Argymhelliad 8.** Dylid diwygio adran 44 o'r Bil fel bod:

- Rhan 2 o'r Bil yn dod i rym erbyn 31 Rhagfyr 2029 fan bellaf, a
- Gweinidogion Cymru yn cadw'r gallu i ddod â Rhan 2 i rym yn gynharach drwy orchymyn.

## Rhan 3

**127.** Nodwn y dystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet ynghylch Rhan 3 o'r Bil.

**128.** Nodwn fod pŵer gwneud rheoliadau Harri'r Wythfed yn adran 9(5) yn caniatáu diwygio adran 9 i newid yr amgylchiadau pan fo arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr yn digwydd ac, felly, a yw'r ardoll i'w chodi.

**Casgliad 2.** Mae'r pŵer gwneud rheoliadau yn adran 9(5) yn bŵer sylweddol. Gall newid yr amgylchiadau pan fo arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr yn

digwydd ac a yw'r ardoll i'w chodi estyn atebolrwydd trethdalwyr o dan y Bil (os caiff ei ddeddfu a phan fo hynny'n digwydd), a dylai'r Senedd gydnabod hyn.

**Argymhelliad 9.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet gadarnhau a ystyriodd Llywodraeth Cymru wneud y pŵer gwneud rheoliadau yn adran 9(5) o'r Bil yn ddarostyngedig i weithdrefn uwchgadarnhaol o ystyried y gallai estyn atebolrwydd trethdalwyr.

**129.** Fel y nodir uchod, mae adran 12 yn darparu ar gyfer cyfraddau'r ardoll ac yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r cyfraddau is ac uwch drwy ddefnyddio rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu gadarnhaol ddrafft. Nodwn ddatganiadau'r Ysgrifennydd Cabinet nad ei fwriad ef yw y bydd y cyfraddau'n newid yn gyflym. Fodd bynnag, wrth nodi'r sylwadau hyn, unwaith eto, rydym yn pwysleisio mai bwriad yr Ysgrifennydd Cabinet hwn a Llywodraeth bresennol Cymru yw hyn; ni fydd y Llywodraeth hon mewn grym pan fydd ardoll o dan y cynigion hyn yn cael ei gweithredu.

**130.** Nodwn fod adran 13 o'r Bil yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau Harri'r Wythfed a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i amrywio'r mathau o arhosiad dros nos a fydd yn denu cyfraddau is neu uwch yr ardoll neu gyfradd o ddim yr ardoll.

**131.** Nodwn sylwadau'r Ysgrifennydd Cabinet bod adran 13 'yn edrych at y dyfodol' drwy alluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i'r posibiliadau y bydd pethau newydd yn codi.

**132.** At hynny, nodwn fod swyddogion yr Ysgrifennydd Cabinet wedi disgrifio'r pŵer yn adran 13 fel ffordd o ddiogelu'r ddeddfwriaeth at y dyfodol. Un enghraifft a ddisgrifiwyd i ni oedd y gallai datblygiadau o ran sut y mae awdurdodau lleol yn rhoi tai i bobl ddigartref, ac eisiau sicrhau bod sefyllfaoedd o'r fath yn cael eu dal yn y categori cyfradd o ddim.

**Casgliad 3.** Er nad ydym yn gwneud sylw ar rinweddau polisi neu fel arall y math o lety ymwelwyr a ddylai fod yn ddarostyngedig i ardoll, unwaith eto, byddwn yn pwysleisio bod y Senedd, drwy gymeradwyo cynnwys adran 13 yn y Bil, yn darparu pŵer eang i lywodraeth yn y dyfodol y gallai ei bwriadau fod yn wahanol i'r llywodraeth bresennol.

**133.** Nodwn y bydd adran 14 yn caniatáu i brif gyngor godi premiwm ar gyfraddau'r ardoll.

**134.** Ymhellach, nodwn y teimladau cadarnhaol a fynegwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet sy'n sail i'w gred y gallai Llywodraeth Cymru ddibynnu ar awdurdodau lleol i ddefnyddio'r pwerau a fydd ganddynt mewn ffordd resymol.

**135.** Rydym hefyd yn cydnabod y byddai'r pŵer gwneud rheoliadau yn adran 14(3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r uchafswm y caiff prif gyngor ei ychwanegu at y cyfraddau is neu uwch. Ymhellach, nodwn y bydd y pŵer hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu gadarnhaol ddrafft.

**136.** Nodwn sylwadau'r Ysgrifennydd Cabinet ei fod yn credu ei bod yn bosibl ar hyn o bryd, gyda'r Bil fel y'i drafftiwyd, i awdurdodau lleol ymgynghori ar yr un pryd ynghylch cyflwyno ardoll ymwelwyr ac ychwanegu premiwm at gyfradd yr ardoll. Rydym yn cydnabod datganiad yr Ysgrifennydd Cabinet y bydd yn ystyried cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 fel na all hynny ddigwydd.

**137.** Nodwn y bydd pŵer gwneud rheoliadau Harri'r Wythfed yn adran 17(3) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu negyddol os caiff ei ddefnyddio gan Weinidogion Cymru a phan fydd hynny'n digwydd. Nid ydym wedi ein hargyhoeddi gan gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros gymhwyso'r weithdrefn hon i'r pŵer hwn ac, yn unol â'n barn hirsefydlog, dylai cymeradwyaeth y Senedd fod yn ofynnol ar gyfer pwerau y gellir eu defnyddio i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol cyn iddynt gael eu harfer.

**Argymhelliad 10.** Dylid diwygio'r Bil fel bod y weithdrefn graffu gadarnhaol ddrafft yn gymwys i reoliadau a wneir o dan adran 17(3) o'r Bil.

**138.** Nodwn y dystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet o ran Atodlen 1 i'r Bil.

**139.** Fel rydym yn pwysleisio uchod ym mharagraff 92, yn ystod ein sesiwn dystiolaeth gyda'r Ysgrifennydd Cabinet, gofynnwyd pa bwerau a gweithdrefnau y bydd ACC yn eu dilyn os gwneir cwyn nad yw darparwr llety ymwelwyr ar y gofrestr. Nodwn ymateb yr Ysgrifennydd Cabinet, y bydd y system ar gyfer casglu gwybodaeth gyhoeddus mewn perthynas â'r gofrestr llety ymwelwyr genedlaethol yn rhan o'i datblygiad yn y dyfodol ac nad oes angen pwerau ar wyneb y Bil i hwyluso hyn. Fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn aneglur i ni pa bwerau y bydd ACC yn dibynnu arnynt mewn cysylltiad â'i ddyletswyddau arfaethedig o ran y gofrestr darparwyr llety ymwelwyr.

**Argymhelliad 11.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet esbonio pa bwerau statudol y bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn dibynnu arnynt mewn cysylltiad â'i ddyletswyddau disgwyliedig o ran y gofrestr darparwyr llety ymwelwyr.

**140.** Nodwn y bydd pŵer gwneud rheoliadau Harri'r Wythfed yn adran 24(4) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu negyddol os caiff ei ddefnyddio gan Weinidogion Cymru a phan fydd hynny'n digwydd. Unwaith eto, nid ydym wedi ein hargyhoeddi gan gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros gymhwyso'r weithdrefn hon i'r pŵer hwn ac, yn unol â'n hargymhelliad uchod ynghylch y pŵer yn adran

17(3), dylai cymeradwyaeth y Senedd fod yn ofynnol ar gyfer y pŵer hwn cyn iddo gael ei arfer.

**Argymhelliad 12.** Dylid diwygio'r Bil fel bod y weithdrefn graffu gadarnhaol ddrafft yn gymwys i reoliadau a wneir o dan adran 24(4) o'r Bil.

**141.** Nodwn fod adran 25(9) o'r Bil yn darparu y gall camau a gymerir cyn i'r adran ddod i rym fodloni gofynion yr adran. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym y byddai'n rhagweld y bydd prif gynghorau yn aros tan ddiwedd proses y Bil cyn cynnal neu baratoi i gynnal ymgynghoriad ffurfiol. Fodd bynnag, nid yw'r Bil yn gosod y gofyniad hwn. Fel yr ydym eisoes wedi nodi uchod, mae rhaid i'r Bil ei hun gynnwys y darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r prif gynghorau weithredu yn y ffordd y mae'r Llywodraeth yn bwriadu ac y dywedwyd wrth y Senedd y byddant yn gweithredu.

**Argymhelliad 13.** Dylid diwygio'r Bil fel bod adran 25(9) yn cael ei dileu o'r Bil.

**142.** Mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi disgrifio'r pŵer yn adran 37 o'r Bil i osod gofynion hysbysebu a bilio ar ddarparwyr llety ymwelwyr fel pŵer "eang yn fwriadol".

**Casgliad 4.** Mae'n amhriodol bod Llywodraeth Cymru yn ceisio pŵer mor 'eang yn fwriadol' yn adran 37 heb yr un bwriad i'w ddefnyddio.

**143.** Ar ben hynny, credwn fod adran 37 fel y'i drafftiwyd yn enghraifft arall o bolisi llywodraeth nad yw wedi'i ddatblygu'n ddigonol, gan ddangos nad oedd y Bil yn barod i'w gyflwyno i'r Senedd.

## Rhan 4

**144.** Nodwn y dystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet ynghylch Rhan 4 o'r Bil.

**145.** Nodwn fod adran 39 yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ar yr ardoll neu'r cynllun cofrestru, ac nad oes gweithdrefn graffu'r Senedd ynghlwm â'r pŵer arfaethedig hwn.

**146.** Rydym yn cydnabod tystiolaeth yr Ysgrifennydd Cabinet mai bwriad y pŵer i gyhoeddi canllawiau yw hwyluso gweithrediad y ddeddfwriaeth sylfaenol, ac y bydd yn ymwneud yn bennaf â'r broses weithredol. Rydym hefyd yn cydnabod bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn datgan y bydd yn ymgynghori â rhanddeiliaid cyn cyhoeddi'r canllawiau.

**147.** Serch hynny, o ystyried bod yr Ysgrifennydd Cabinet wedi dweud y byddai'r canllawiau'n cael eu defnyddio i "egluro agweddau ar y gyfraith", byddem yn

croesawu mwy o wybodaeth am yr hyn y bwriedir i'r canllawiau ei gwmpasu ac, yn benodol, pa agweddau ar ddarpariaethau'r Bil y gall fod angen 'eglurhad'.

**Argymhelliad 14.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet ddarparu rhagor o wybodaeth o ran pa faterion y bwriedir eu cynnwys mewn canllawiau a gyhoeddir o dan adran 39; yn benodol, pa ddarpariaethau y gall fod angen eglurhad ac am ba resymau.

**148.** Fel Pwyllgor, un o'n nodau craidd wrth ystyried cynigion deddfwriaethol yw helpu'r Senedd i fodloni ei hun ei bod yn pasio deddfwriaeth sydd wedi'i drafftio'n dda ac â sylfaen dystiolaeth gadarn i gefnogi diwygio deddfwriaethol.

**149.** Rydym yn pryderu bod adran 40 y tu allan i ffiniau'r hyn y gellid ei ystyried yn rhesymol yn ddarpariaeth ddeddfwriaethol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

**150.** Yn ein barn ni, nid yw'r Ysgrifennydd Cabinet wedi gallu darparu tystiolaeth sy'n dangos yr angen i adran 40 gael ei chynnwys yn y Bil.

**151.** Rydym hefyd o'r farn bod adran 40 yn ddarpariaeth arall sy'n dangos nad oedd y Bil yn barod i'w gyflwyno i'r Senedd.

**152.** At hynny, mae gennym bryderon gyda'r cyfiawnhad a roddwyd bod angen adran 40 am resymau 'diogelu at y dyfodol'. Rydym yn gwneud sylwadau'n rheolaidd ar briodoldeb 'diogelu at y dyfodol' fel cyfiawnhad i Lywodraeth Cymru geisio cymryd pwerau dirprwyedig helaeth. Yn ein barn ni, mae 'diogelu at y dyfodol' fel hyn a fyddai'n galluogi llywodraeth anhysbys yn y Seithfed Senedd a'r tu hwnt i weithredu mewn modd nad yw wedi cael ystyriaeth gan y Senedd hon yn is na safon yr hyn y byddai llawer yn ei ystyried yn gyfansoddiadol briodol.

**153.** Os bydd adran 40 yn aros yn y Bil, rydym o'r farn bod rhaid darparu a diogelu cyfleoedd ychwanegol ar gyfer ymgynghori â rhanddeiliaid a chyfranogiad y Senedd yn y Bil cyn i reoliadau o dan adran 40 gael eu gosod gerbron y Senedd.

**Argymhelliad 15.** Dylid diwygio adran 40 yn cymhwyso gweithdrefn uwchgadarnhaol i'r pŵer gwneud rheoliadau gynnwys gofyniad:

- ar gyfer ymgynghori (ac isafswm cyfnod ar gyfer yr ymgynghoriad hwnnw), gan gynnwys â phwyllgorau'r Senedd, cyn i reoliadau drafft o'r fath gael eu gosod gerbron y Senedd, a
- bod rhaid i Weinidogion Cymru wneud datganiad cyn y gwneir rheoliadau o'r fath gerbron y Senedd, yn nodi canlyniad yr ymgynghoriad (gan gynnwys meysydd y cytunir ac yr anghytunir arnynt â rhanddeiliaid) ac, yn unol â hynny, sut y mae'r rheoliadau wedi ystyried ymgysylltiad â rhanddeiliaid a'r Senedd.

**154.** Rydym wedi gwneud sawl argymhelliad yn ein hadroddiad yn gofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet gadarnhau a ystyriodd Llywodraeth Cymru atodi gweithdrefn graffu uwchgadarnhaol i lawer o bwerau Harri'r Wythfed eang a sylweddol yn y Bil; gweithdrefn uwchgadarnhaol a allai ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ar eu cynigion deddfwriaethol a chyflwyno adroddiad i'r Senedd efallai ar ganlyniad yr ymgynghoriad, gan gynnwys sut y mae barn rhanddeiliaid wedi'u hystyried.

**155.** Mae ein hargymhellion cynharach, yn rhannol, yn adlewyrchu'r ffaith nad yw'r Bil yn cynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn cyflwyno rheoliadau. Wrth arfer pwerau dirprwyedig o dan y ddeddfwriaeth hon a fyddai'n estyn atebolrwyddau trethdalwyr, rydym o'r farn y byddai'n cynrychioli arfer deddfwriaethol da i'r llywodraeth ymgynghori cyn i reoliadau drafft gael eu gosod gerbron y Senedd.

**156.** Ar ben hynny, mae'r Bil hwn wedi'i gyflwyno ac mae gwaith craffu yn cael ei wneud arno ar ddiwedd y Chweched Senedd. Fel y cyfyrw, os caiff y Bil ei ddeddfu a phan fydd hynny'n digwydd, bydd y pwerau'n cael eu harfer gan lywodraeth sy'n wahanol i'r un sydd wedi cyflwyno'r Bil i'r Senedd.

**157.** Nid yw sylwadau'r Ysgrifennydd Cabinet, lle bo'n briodol ac fesul achos, y byddai Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgynghori ar y defnydd o reoliadau, yn rhoi sicrwydd i Aelodau o'r Senedd na rhanddeiliaid y bydd ymgysylltiad ystyrlon cyn y gallai llywodraeth yn y dyfodol gynyddu ac estyn yr atebolrwyddau ar drethdalwyr yng Nghymru. Byddai cynnwys dyletswydd benodol i ymgynghori ar wyneb y Bil cyn cyflwyno rheoliadau perthnasol yn rhoi sicrwydd ei bod yn ofynnol i lywodraeth yn y dyfodol wneud y gwaith ymgysylltu hwnnw.

**Argymhelliad 16.** Dylid diwygio'r Bil fel bod dyletswydd benodol ar Weinidogion Cymru i ymgynghori cyn arfer y pwerau dirprwyedig yn adrannau 2, 9 a 37 o'r Bil.